**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/2251/20

John Griffiths AS
Cadair,
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
SeneddCommunities@senedd.wales

03 Awst 2020

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr ar 1 Gorffennaf at y ddau ohonom ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i effaith COVID-19 ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Byddwn yn ymdrin â phob un o'r materion y gwnaethoch chi eu codi dan benawdau ar wahân.

**Asesu'r effaith**

Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd ein hymateb i'r pandemig yng Nghymru, a'r adferiad, ac rydym wedi cadw'r egwyddor hon mewn cof yn ein gwaith drwyddo draw. Bu cryn ymdrech ar draws y Llywodraeth ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid i ddeall yr effeithiau sy'n deillio o COVID-19 a'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eu rhoi ar waith i'w reoli.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dull o fynd ati i asesu a yw'r amodau'n addas i alluogi i gyfyngiadau symud penodol gael eu llacio yn y dogfennau 'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad' ar 24 Ebrill a 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod' ar 15 Mai. Mae'r ddwy ddogfen yn cyfleu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod penderfyniadau i lacio'r cyfyngiadau yn cael effaith gadarnhaol iawn ran yr effaith ar gydraddoldeb.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth. Disodlwyd y rhain gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ar 11 Gorffennaf. Mae fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf ar gael yma https://llyw.cymru/deddfwriaeth-chanllawiau-coronafeirws-ar-y-gyfraith. Mae'r Prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am gyfyngiadau a gofynion dan y Prif Reoliadau bob 21 diwrnod. O ganlyniad, mae'r Prif Reoliadau wedi'u diwygio ers hynny (yn ogystal ag ar 7 Ebrill) ar 25 Ebrill, 11 Mai, 22 Mai ac 1 Mehefin. Daw'r Rheoliadau i ben ar 26 Medi 2020, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Senedd Cymru.

Rydym wedi cyhoeddi crynodebau o'r asesiadau cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y mesurau i reoli COVID-19, yn ymdrin ag adolygiadau 21 diwrnod 18 Mehefin, 6 Gorffennaf a 9 Gorffennaf. Mae'r rhain ar gael yma https://llyw.cymru/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws. Bydd asesiadau effaith pellach sy'n ymwneud â deddfwriaeth a chanllawiau coronafeirws yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth maes o law. Byddwn yn ceisio dysgu gwersi'r ychydig fisoedd diwethaf i sicrhau bod ystyried effaith yn parhau i fod yn rhan annatod o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau.

**Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod hawliau dynol wrth wraidd y cynllun adfer, o ystyried ei ymrwymiadau hirdymor i gydraddoldeb a hawliau dynol**

Rydym yn cydnabod y bygythiad i gydraddoldeb y mae COVID-19 wedi'i amlygu ac wedi ymrwymo i greu darlun clir o'r effeithiau anghymesur y mae'r feirws yn eu cael ar grwpiau penodol yng Nghymru.

Rydym yn gallu defnyddio rhwydwaith cryf o fforymau Cydraddoldeb sydd wedi bod yn cyfarfod yn amlach drwy gydol yr argyfwng presennol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog. Mae'r rhain yn cynnwys y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, y Fforwm Cymunedau Ffydd, Fforwm Hil Cymru a'r Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i goladu, cofnodi a chrynhoi'r themâu allweddol o ystod o adroddiadau, briffiadau a mewnwelediadau mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn darparu adnodd i ddeall yn well beth yw effaith COVID-19 ar gydraddoldeb yng Nghymru ac i ystyried camau lliniaru lle bo angen, yn ogystal â chefnogi ymgymryd ag Asesiadau Effaith Integredig ar draws meysydd polisi.

Rydym am glywed barn pobl hŷn er mwyn deall sut gall Cymru gryfhau'r cymorth i bobl hŷn wrth i ni symud tuag at y cyfnod adfer. Rydym yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr drwy ein Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio a drwy'r rhwydweithiau pobl hŷn rydym yn ariannu Age Cymru i'w cynnal.

Eleni, roeddem wedi dyrannu £50,000 ychwanegol i Age Cymru er mwyn cefnogi pum sefydliad pobl hŷn cenedlaethol ac i hyrwyddo ymgysylltiad ehangach gyda grŵp ehangach o bobl hŷn. Mae hyn yn ychwanegol at ddyraniad blynyddol o £73,000 i gefnogi pum fforwm pobl hŷn cenedlaethol, sy'n cynnwys COPA (Cynghrair Pobl Hŷn Cymru). Ar hyn o bryd mae COPA yn drafftio arolwg a fydd yn cael ei ddosbarthu ymysg pobl hŷn ac aelodau o'r Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, i ofyn am eu barn ynghylch adferiad sy'n ystyriol o oedran. Bydd copïau papur ar gael i bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, a bydd Age Cymru yn helpu i hyrwyddo'r arolwg.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion a swyddogion i drafod hawliau pobl hŷn ac fe fydd yn cyhoeddi ei hargymhellion yn ymwneud â chymorth i bobl hŷn wrth i'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus gael eu llacio.

Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi cymryd cyfres o gamau i 'wireddu hawliau' i bobl hŷn. Cyn y pandemig, buom yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, academyddion, pobl hŷn a'u cynrychiolwyr i gynhyrchu canllawiau ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dangos sut i roi 'sylw dyledus' i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau maes o law i gefnogi dull sy'n seiliedig ar hawliau. Bydd fersiwn o'r canllawiau sydd wedi'i hanelu at bobl hŷn hefyd yn cael ei chyhoeddi.

Rydym hefyd wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i ddiweddaru canllawiau 2009 ar Bryderon Cynyddol ynghylch Cau Cartrefi Gofal a fydd yn canolbwyntio ar ddiogelu hawliau.

Yn ogystal â'r camau a amlygwyd, cynhaliwyd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a thrafodaethau o amgylch y bwrdd ledled Llywodraeth Cymru i ymgysylltu a datblygu camau mewn ymateb i COVID-19 ac i wneud hynny drwy weithio mewn partneriaeth â phobl a sefydliadau ar hyd a lled Cymru.

Bu'r cyfarfodydd hyn yn gyfle amhrisiadwy i ddeall ac i wrando ar y prif anghydraddoldebau a'r materion hawliau dynol sy'n deillio o bandemig y coronafeirws ac i drafod camau i fynd i'r afael â nhw.

Mae ein dull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn gweithio i gyflawni ein rhwymedigaeth i asesu a allai ein gweithgareddau gael effaith niweidiol ar hawliau dynol unigolyn fel sydd wedi'i gynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

**Llacio gofynion deddfwriaethol – pa asesiad a wnaed o effaith llacio ar bobl hŷn a grwpiau eraill?**

Mae pobl hŷn, gofalwyr a phobl anabl yn dibynnu ar ofal a chymorth er mwyn parhau i fyw eu bywydau'n annibynnol, gan gynnwys dod o hyd i lety naill ai yn y tymor hir neu fel rhan o drefniadau seibiant. Yn yr amserlen dynn iawn, yr hyn oedd yn bwysig i ni oedd sicrhau, gyda'n chwaer-Seneddau, bod gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau i gynllunio ac ymateb i effaith bosibl Coronafeirws COVID-19. Fel y crybwyllwyd eisoes, cafodd darpariaethau Deddf Coronafeirws 2020 eu trafod a'u cytuno gan y Senedd fel rhan o'r drafodaeth cymhwysedd deddfwriaethol ar 25 Mawrth 2020.

Mae gennym ni ddull clir sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru, ac mae'r Llywodraeth hon yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod yr hawliau hynny'n dal i gael eu diogelu hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol hwn. Roedd yr ymrwymiad hwnnw yn sail i'n penderfyniad i sicrhau canllawiau pwrpasol a phwerau cyfarwyddo yn Neddf Coronafeirws 2020 i sicrhau cyfeiriad clir a chadarn o ran sut mae'r pwerau sylweddol hynny'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r potensial i atal neu gyfyngu ar ofal a chymorth rhywun, i effeithio ar weithgareddau personol dyddiol fel codi allan o'r gwely, ymolchi a gwisgo amdanynt yn cael effaith aruthrol ar urddas a pharch yr unigolyn hwnnw.

Mae'r canllawiau'n cydnabod ac yn atgyfnerthu'n bendant y mesurau diogelu ac amddiffyn a ddarperir i unigolion yn ogystal â dyletswyddau gwreiddiol awdurdodau lleol o dan:

- y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys yr hawl i fywyd o dan Erthygl 2 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop (ECHR), yr hawl i ryddid rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol o dan Erthygl 3 a'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8; a
- Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys dyletswyddau mewn perthynas â hyrwyddo llesiant, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Datblygwyd ein canllawiau a'u heffaith ar bobl sydd angen gofal a chymorth mewn partneriaeth â sefydliadau ledled Cymru gan gynnwys y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd rwyf i'n ei gadeirio. Roedd y sefydliadau sy'n cynrychioli'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod angen gofal a chymorth yn gallu dylanwadu ar y canllawiau statudol a'u croesawu'n ddiweddarach. Roedd hyn yn cynnwys pobl sydd ag anghenion dysgu, sy'n colli eu golwg, pobl hŷn, gofalwyr a rhieni plant anabl, Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant, Byrddau Diogelu sydd oll wedi helpu i lunio'r canllawiau.
Rydym yn parhau i edrych ar effaith COVID-19 ar bobl hŷn a grwpiau eraill. Ers mis Mawrth, rydym wedi darparu fforwm traws-sector wythnosol penodol ar gyfer partneriaid gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn a rhanddeiliaid allweddol eraill i rannu tystiolaeth a gwybodaeth am effaith y pandemig a chyfrannu a dylanwadu ar natur a graddfa ein hymateb. Roedd y fforwm hwnnw wedi galluogi ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â dechrau'r darpariaethau a bydd yn gyfrwng allweddol ar gyfer hysbysu ei ddiddymu yn seiliedig ar y dystiolaeth a'n fframwaith ar gyfer adferiad i arwain Cymru allan o bandemig y coronafeirws.

**Effaith ar grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig**

Fel rydych chi'n cydnabod yn eich llythyr, roedd Llywodraeth Cymru yn bryderus iawn ynghylch y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r effaith anghymesur mae COVID 19 yn ei chael ar unigolion BAME. Ymatebodd y Prif Weinidog yn ddiymdroi, gan sefydlu Grŵp Cynghori i hysbysu ynghylch y camau i'w cymryd. Mae'r Teclyn Asesu Risg yn cael ei ddefnyddio a chyhoeddwyd adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol BAME ar COVID-19 ar 22 Mehefin: https://llyw.cymru/adroddiad-grwp-economaidd-gymdeithasol-covid-19-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig

Mae'n cyflwyno fframwaith clir ar gyfer nifer o'r materion y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw, a bydd yn gweithredu fel sylfaen bwysig ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cymru.

Mae argymhellion yr adroddiad nawr yn cael eu hystyried yn llawn, a chyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru maes o law.

Ym mis Mawrth 2020 ymrwymodd y Dirprwy Weinidog ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cymru. Cafodd cynnydd ar y gwaith hwn ei atal am gyfnod byr er mwyn ymateb i bandemig COVID-19. Byddwn nawr yn symud ymlaen yn gyflym i ddatblygu'r cynllun hwn er mwyn pennu a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hil yng Nghymru. Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad ar ein cynlluniau yn fuan.

Dros y degawd diwethaf, mae grwpiau a sefydliadau hil wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau ymchwil ac argymhellion ynglŷn â hil a phrofiadau cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac yn ehangach. Ymgymerwyd hefyd â nifer o ymchwiliadau ac adroddiadau swyddogol sydd wedi casglu tystiolaeth sylweddol ac wedi gwneud nifer fawr o argymhellion.

Rydym wedi dechrau adolygiad cyflym cychwynnol o'r gwaith ymchwil hwn. Mae'r argymhellion a'r prif faterion a godwyd ac sy'n cael eu codi wedi cael eu rhoi at ei gilydd er mwyn nodi themâu a'r rhai â data am wahaniaethau hiliol.

Cyd-adeiladu fydd un o'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'n dull o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Mae'n rhaid i ni felly ymgysylltu â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddatblygu amcanion a chamau a rennir i'w cynnwys yn y Cynllun. Mae'n galw arnom i gysylltu ag ystod ehangach o bobl, yn ogystal â chynyddu gwerth y rhwydweithiau rydyn ni'n gysylltiedig â nhw'n barod.

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig ar COVID-19 a Chymunedau BAME ar 21 Ebrill 2020. Cyhoeddodd Ddatganiad Ysgrifenedig arall ar COVID-19 a BAME – mesurau i ddiogelu'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 2 Mai 2020. Roedd y datganiad yn cymeradwyo datganiad ar y cyd gan Gyflogwyr HS, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Undebau Llafur a'r Llywodraeth, gan ei gwneud yn glir bod angen cymryd agwedd ragofalus hyd yn oed wrth i'r sylfaen dystiolaeth ddatblygu ynglŷn ag effaith wahaniaethol COVID-19 ar aelodau o'n gweithlu.

https://llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2020-05/covidbamemeasurestoprotectthehealthandsocialcareworkforcecym.pdf

Cafodd Fforwm Hil Cymru arbennig ei gynnull ar 22 Ebrill i ystyried effaith COVID-19 ar gymunedau BAME.

Ers dechrau'r pandemig COVID-19, mae swyddogion wedi bod yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda'n partner a ariennir gan grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) i drafod yr effaith barhaus ar gymunedau BAME ac i gyfnewid gwybodaeth am y materion hyn.

Mae EYST wedi ail-gyfeirio ei ymdrechion o'r fforymau rhanbarthol a fwriadwyd yn wreiddiol i rith-fforymau â thema sydd wedi talu sylw i bynciau blaenoriaeth (dan arweiniad rhanddeiliaid). Hyd yma, mae'r rhain wedi cynnwys claddedigaeth Fwslimaidd, addysg, cyflogaeth, tlodi bwyd a throsedd casineb. Roedd y fforymau'n denu dros 40 o bobl yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned o bob cwr o Gymru. Darperir adborth i Lywodraeth Cymru a'i fwydo i mewn i drafodaethau llunio polisïau perthnasol. Mae swyddogion hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol i'r fforymau drwy EYST.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Moesol ac Egwyddorol COVID-19 ar gyfer Cymru (C-MEAG) er mwyn cydlynu sawl ffynhonnell o gyfarwyddyd i sicrhau eu bod yn diwallu safonau moesol, ac yn adlewyrchu anghenion pob cymuned ledled Cymru.

Drwy wneud hynny, rydym yn gobeithio sicrhau bod y canllawiau sy'n cael eu rhoi ar waith, ym mha le bynnag, yn berthnasol, yn egwyddorol gyson ac yn cael eu cymhwyso'n gyson (gan ystyried gofynion penodol y cymunedau o ddiddordeb) yng Nghymru). Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Prif Swyddog Meddygol a'r Gweinidogion sy'n noddi.

Nod strwythur C-MEAG yw sicrhau bod y risg o wahaniaethu annheg tuag at unrhyw ran o'r gymuned yn cael ei lleihau neu ei dileu drwy sicrhau bod swyddogion yn cael cyngor priodol gan arbenigwyr perthnasol - gan gynnwys o'r cymunedau y mae'n fwyaf tebygol y bydd COVID-19 a'r ymateb i'r argyfwng yn effeithio'n niweidiol arnynt.

Cyhoeddodd C-MEAG fframwaith ym mis Ebrill 2020 sef [“Coronafeirws: werthoedd ac egwyddorion moesegol ar gyfer darparu gofal iechyd”.]

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich adroddiad.

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip